Y Grawys a'r Pasg yn Eglwys Annibynnol Minny Street

Wrth baratoi ein hunain ar gyfer Gwyl y Pasg, buom, o dan arweiniad ein Gweinidog, y Parchedig Owain Llyr Evans, ar daith. Yn gyfeirnod i'n Taith Grawys: *"Dysg i mi dy ffordd, O Arglwydd"* (Salm 27: 11a). I'n cynorthwyo mewn myfyrdod cynlluniwyd ac adeiladwyd tirlun newydd wythnosol yn ffrynt y capel.

Rhaid i bob taith ei nod; y pen draw sy'n rhoi ystyr a phwrpas i'r teithio. Wrth i ninnau gynnau cannwyll ar **Sul Cyntaf y Grawys** gwyddem fod Jerwsalem ymhell a thaith hir o'n blaenau. Ar **Ail Sul y Grawys** ymlwybro dros dir diffaith, caled a chras a wnaethom. *"Pererin wyf mewn anial dir, yn crwydro yma a thraw ... Tyrd, Ysbryd sanctaidd, ledia'r ffordd .."* (William Williams Pantycelyn 1717-91) . Er gwacter yr anialwch estyn y profiad gyfle i ganfod Duw. Trwy gynnau cannwyll cawsom gyfle i gofio a chyflwyno'r rheini o'n cydnabod a gerddai *mewn anial dir.* Troi i Broffwydoliaeth Jeremeia (6:16) a wnaethom ar **Drydydd Sul y Grawys**: *"Fel hyn y dywed yr Arglwydd: 'Safwch ar y ffyrdd; edrychwch, ac ymofyn am yr hen lwybrau. Ple bynnag y cewch ffordd dda, rhodiwch ynddi, ac fe gewch le i orffwys'"*. Daethom i groesffordd, man i aros a gwrando ar apêl Jeremeia i adfer symledd ein crefydd - Duw â'i bobl yn cydgerdded. Wrth gynnau cannwyll ger y groesffordd daethom, aelodau Eglwys Minny Street, i sylweddoli yng nghanol annibendod ein byw bod symlrwydd bendigedig Efengyl Crist yn cynnig y Ffordd sy'n arwain i'r bywyd. Erbyn y **Pedwerydd Sul o'r Grawys** ychydig ohonom oedd heb sylweddoli mai amhosibl y daith heb ffynnon! Ceir yno bopeth i'n hadnewyddu - dwr, cysgod, a ffrwythau'r palmwydd yn fwyd. Cyfle i ni gofio sut y gofala Duw amdanom, a'n hadnewyddu.

Ail Sul cyn y Pasg: Jerwsalem yn agosach! *"Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd!"* (Salm 84:1). Ffordd unionsyth ond y demtasiwn yw rhuthro a charlamu! Dylid cymryd pwyll bob amser. Wrth gynnau cannwyll cawsom fyfyrio ar werth ymbwyllo; er byrred y daith, cyn sythed y ffordd, nid ar frys y ceir gorau'r Grawys. Pwysig yw gofyn am gymorth Duw i ymdawelu, ymbwyllo, ymlonyddu ac ymagor i rin Ei lonyddwch. Nid ar frys y ceir gorau Duw! **Sul y Blodau**! Cyrraedd diwedd y daith a chyrraedd Jerwsalem. Ddechrau'r Wythnos Fawr! Cynigwyd cyfle i weld o'r newydd ryfeddod a dyfnder cariad Duw yng Nghrist. Fe'n harweiniwyd i ganolbwyntio ar ffaith ddiymwad grym gofal ein Ceidwad ac iddo gerdded ymlaen i ganol berw Jerwsalem yng ngrym ei gariad anorchfygol i gwrdd ag angau ei hun. Mewn cof taenasom flodau ar y ffordd.

Daeth **Sul y Pasg**! Dyma sylweddoli mor anodd y bu'r daith; llusgo'n ffordd a wneuthum trwy ddrygioni, casineb a marwolaeth. Ar Sul y Pasg daeth cyfle i gyhoeddi mai daioni, cariad a bywyd - y tri hyn - a orfu. Daeth Gwawr yr Atgyfodiad! Ar Fore'r Pasg daeth goleuni!. Wrth gynnau'n canhwyllau ein llef, yn un â llef holl Gristnogion y byd oedd ar i bobl weld y golau hwnnw: ei weld ym mhrofiadau bywyd, da a drwg; ac o'i weld, byw yn ei lewyrch, ac o fyw ynddo, ymgysegru iddo. Cyfle i gyhoeddi i'r gymdeithas o'n hamgylch yn Y Waun Ddyfal, Caerdydd: **Iesu yw'r Golau - Goleuni'r Byd, Goleuni ein Bywyd**.

Diolch i'n Gweinidog am ei arweiniad a'i waith yn newid (ac adeiladu!) y tirlun o wythnos i wythnos. Trwyddo, a thrwy ras ein Harglwydd Iesu Grist, daeth paratoad y Grawys a Buddugoliaeth y Pasg yn fyw i ni yn Minny Street eleni. Ceir hanes llawn o'n cyfarfodydd dros gyfnod Y Grawys a'r Pasg ar ein gwefan, ***www.minnystreet.org***

Bethan Jones